

CANLLAWIAU AR GYFER DREIFIO CERBYDAU CYNNAL

CYNNWYS

1. PWRPAS Y POLISI HWN
2. DYLETSWYDD GYFREITHIOL
3. FFITRWYDD GWEITHIWR I DDREIFIO
4. GWIRIADAU AR DRWYDDED YRRU
5. DELIO GYDA PHWYNTIAU COSB
6. DREIFIO, FFONAU SYMUDOL AC YMYRIADAU ERAILL
7. ORIAU DREIFIO
8. ADDASRWYDD Y CERBYD I'R FFORDD FAWR
9. DREIFIO DAN DDYLANWAD ALCOHOL NEU GYFFURIAU
10. YSMYGU YN Y GWAITH
11. TORRI LAWR
12. CYNNAL A CHADW CERBYDAU
13. YSWIRIANT
14. PARCIO
15. TROSEDDAU PARCIO COSB SEFYDLOG
16. DIOGELWCH CERBYDAU
17. DAMWEINIAU
18. TECHNEG DDREIFIO GYFFREDINOL
19. TORRI'R CYFYNGIADAU CYFLYMDER STATUDOL
20. ARWEINIAD CYFFREDINOL AR WEITHREDU'R POLISI HWN
21. PWYNTIAU GWEITHREDU
22. DATGANIAD Y GWEITHIWR

POLISI DREIFIO CERBYDAU CYNNAL

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi a gweithdrefnau CYNNAL i sicrhau bod gyrwyr sy'n dreifio cerbydau y mae CYNNAL yn berchen arnynt, neu sy'n cael eu prydlesu neu eu hurio i CYNNAL, yn dreifio'n ddiogel – gan leihau'r peryglon i'w hunain, i'w cyd-deithwyr ac i ddefnyddwyr eraill ar y ffordd.

1. PWRPAS Y POLISI HWN

Bwriad y polisi hwn yw gofalu fod gan CYNNAL bolisiâu a gweithdrefnau i reoli defnydd pob cerbyd y mae CYNNAL yn berchen arno, neu sy'n cael ei brydlesu neu ei hurio i CYNNAL, fel bod y peryglon sy'n gysylltiedig â dreifio ar fusnes CYNNAL yn cael eu hasesu a'u rheoli'n gywir.

Mae'r polisi yn berthnasol i unrhyw un sy'n dreifio cerbyd ar ran CYNNAL, y mae CYNNAL yn berchen arno, neu sy'n cael ei brydlesu neu ei hurio i CYNNAL

2. DYLETSWYDD GYFREITHIOL

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar CYNNAL i sicrhau diogelwch ei weithwyr sy'n dreifio yn eu gwaith, a diogelwch y cyhoedd.

Gofynion sylfaenol

Rhaid i CYNNAL sicrhau:

- ei fod wedi asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â dreifio ar fusnes CYNNAL, a bod ei bolisi ar gyfer Rheoli Risgiau Galwedigaethol ar y Ffordd yn rhan o'i strategaeth Iechyd a Diogelwch gyffredinol;
- bod unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar fusnes CYNNAL, y mae CYNNAL yn berchen arno, neu sy'n cael ei brydlesu neu ei hurio i CYNNAL, yn addas i'r pwrpas y caiff ei ddefnyddio ar ei gyfer, bod ganddo dreth, yswiriant ac wedi'i gynnal a'i gadw'n ddigonol;
- bod gweithwyr sy'n dreifio ar fusnes CYNNAL yn gymwys, a chyda thrwydded ac yswiriant priodol;
- bod gweithwyr sy'n dreifio yn cael eu hyfforddi'n ddigonol i safon gydnabyddedig;
- bod gweithwyr sy'n dreifio cerbydau arbenigol wedi'u hyfforddi ac yn gymwys, a bod ganddynt y drwydded berthnasol ac/neu'r cymhwyster i ddreifio'r math hwnnw o gerbyd;
- bod rheolwyr yn asesu risg defnyddio cerbydau a dreifio mewn perthynas â gwaith CYNNAL sydd o fewn eu rheolaeth;
- na chaiff unrhyw yrrwr ddreifio i CYNNAL oni bai ei fod wedi arwyddo ffurflen "Datganiad Gyrwr" ac wedi cael caniatâd i ddreifio.

Cyfrifoldebau CYNNAL

Mae CYNNAL yn gyfrifol am weithredu'r drefn hon. Yn benodol, golyga hyn bod rhaid:

- i CYNNAL ystyried dreifio wrth wneud asesiad risg ar gyfer pob swydd neu weithgaredd, a rhoi mesurau ar waith i leihau'r peryglon a adnabyddir.
- cael polisiâu clir ar reoli Peryglon ar y Ffordd fel rhan o'i Bolisi Iechyd a Diogelwch.
- sicrhau bod unrhyw gontract cyflogaeth yn nodi bod rhaid i weithwyr gael trwydded yrru briodol a chyfredol os oes gofyn iddynt ddreifio unrhyw bryd.
- yn flynyddol, gofalu bod gan weithwyr sy'n dreifio cerbydau CYNNAL, neu gerbydau sy'n cael eu hurio, eu prydlesu neu ar gontract, drwydded yrru ddilys sy'n caniatáu iddynt ddreifio'r dosbarth o gerbyd y mae gofyn iddynt ddreifio.

- rhaid cadw cofnod bod y gwiriadau uchod wedi'u gwneud, a gofalu bod system archwiliadwy i gofnodi'r gwiriadau hynny.
- sicrhau bod pob cerbyd a ddefnyddia CYNNAL wedi'i gynhyrchu i safon uchel o ran diogelwch, a'u bod yn addas i'r diben y cânt eu defnyddio ar eu cyfer.
- sicrhau bod pob cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw i'r safon a nodir, a sicrhau ei fod yn ddiogel.
- sicrhau bod gweithwyr sy'n dreifio cerbydau arbenigol wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn gymwys i ddreifio cerbydau o'r fath.
- cadw cofnod o hyfforddiant arbenigol a geir a'r cymwysterau a enillir.
- sicrhau y cydymffurfir pob amser â phob deddfwriaeth yn ymwneud â gyrru.
- sicrhau bod amserlenni gwaith yn caniatáu amser realistig ar gyfer teithio a chael egwyl angenrheidiol.
- sicrhau bod polisïau ar gael ar ysmegu mewn cerbydau gwaith, a defnyddio ffonau symudol.

Cyfrifoldebau'r Gyrrwyr

Mae gweithwyr sy'n dreifio cerbydau CYNNAL yn gyfrifol am:

- Ddreifio mewn ffordd ddiogel a chymwys bob amser, gan roi ystyriaeth briodol i ddefnyddwyr eraill ar y ffordd, a chydymffurfio â phob gofyniad cyfreithlon, gan gynnwys Rheolau'r Ffordd Fawr.
- Bod yn hynod ofalus a gwyladwrus wrth nesáu at/dreifio ar dir ysgolion. Rhaid i yrwyr gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau mewn ysgolion unigol o ran mynediad at dir ysgol yn ystod egwyl y bore/amser cinio/egwyl prynhawn, ac amseroedd pan fydd disgyblion yn cyrraedd ac yn gadael yr ysgol.
- Cyflwyno eu trwydded yrru fel y gofynna'r polisi hwn iddynt wneud.
- Datgan unrhyw ardystiad trwydded neu newidiadau yn eu trwydded cyn gynted ag y digwyddant.
- Mynd ar unrhyw hyfforddiant arbenigol y credir sy'n angenrheidiol ar gyfer eu gwaith neu'r math o gerbyd a yrrant.
- Gofalu bod eu cerbyd yn addas i'r ffordd fawr drwy wirio cyflwr y cerbyd cyn cychwyn.
- Cwblhau adroddiad diffyg pan sylwir ar ddiffygion wrth edrych ar gyflwr y cerbyd.
- Dweud am ddiffygion wrth Reolwr y Gweithdy.
- Cyflwyno'u cerbyd i gael ei gynnal a'i gadw yn rheolaidd ar y diwrnod y dywed Rheolwr y Gweithdy wrthynt.
- Cwblhau dogfennau gofynnol (megis Llyfrau Cofnod Gyrrwyr, Cofnod o Daflenni Teithio, taflenni Adroddiad Diffyg y Gyrrwr, cofnodion tacograff...os oes angen), ac unrhyw ddogfen arall y mae'n rhesymol i CYNNAL ofyn amdani i fonitro gweithgareddau'r fflyd o gerbydau.
- Cynllunio eu siwrne i ofalu bod ganddynt ddigon o gyfle i orffwys.
- Dweud ar unwaith wrth eu rheolwr am unrhyw gosbau neu euogfarnau a gânt sy'n gysylltiedig â dreifio.
- Dweud ar unwaith am unrhyw ddamweiniau a gânt wrth ddreifio yn eu gwaith gan ddefnyddio'r drefn dweud am ddamwain/digwyddiad.
- Dweud ar unwaith am unrhyw gyfyngiadau oherwydd rhesymau iechyd e.e. trin diabetes gydag Inswlin.
- Dweud ar unwaith am unrhyw sgil effeithiau posibl allai cyffuriau ar bresgripsiwn eu hachosi.
- Cadw at reolau Oriau Gyrrwyr (rheolau Domestig Prydain neu'r UE) ble'n berthnasol.
- Cadw at Reoliadau Amser Gwaith oherwydd eu bod yn berthnasol i weithwyr sy'n symud.
- Cwblhau unrhyw gofnodion yn ymwneud â dreifio sy'n ofynnol yn statudol neu gan bolisiau CYNNAL.
- Cadw at bolisi CYNNAL ar ddefnyddio ffôn symudol wrth ddreifio, ar ysmegu mewn cerbydau, ac unrhyw bolisiau eraill allai fod yn berthnasol.

Dylai'r safonau hyn fod yn berthnasol i bob gweithiwr sy'n dreifio, boed yn weithwyr rhan amser neu'n llawn amser, dros dro, ar gontract, neu'n wirfoddolwyr.

3. FFITRWYDD GWEITHIWR I DDREIFIO

Rhaid i reolwyr ofalu bod gyrrwyr yn gorfforol ffit i ddreifio'r cerbyd dan sylw, nad ydynt dan ddylanwad diod na chyffuriau anghyfreithlon, nac yn cael eu heffeithio gan gyffuriau ar bresgripsiwn pan fyddant yn cael triniaeth. Bydd CYNNAL yn cyfeirio at ei Weithdrefn Ddisgyblu i ddelio gydag unrhyw achos ble nad yw gweithiwr yn gallu dreifio oherwydd diod neu gyffuriau anghyfreithlon.

Ni ddylid caniatáu i yrrwr ddreifio cerbyd dan ddylanwad diod neu gyffuriau.

4. GWIRIO TRWYDDED YRRU

Rhaid gwirio'r ddogfen trwydded yrru wreiddiol, - nid yw llungopi yn dderbyniol. Rhaid cymryd copi o'r drwydded wreiddiol, dwy ochr y llun, a'r wrthran papur, a'u ffeilio.

Dylid gofyn unrhyw gwestiynau am drwydded yrru i Reolwr y Gweithdy / Swyddog Personél.

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol am gategoriâu a chodau trwydded yrru ar y rhyngwrdd ar hafan gyrrwyr yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrrwyr a Cherbydau (DVLA). <http://www.dvla.gov.uk/drivers.aspx>.

5. DELIO GYDA PHWYNTIAU COSB

Os caiff weithiwr 9 bwynt cosb, rhaid i'w reolwr wneud asesiad risg allai arwain at newid dyletswyddau'r gweithiwr neu ddarparu rhagor o hyfforddiant.

Rhaid ystyried pwyntiau cosb a roddir am dorri cyfyngiadau cyflymder o ran pa mor ddifrifol yw'r drosedd. Dylid trafod mân droseddau gyrru, - er hynny, dylid asesu gyrru troseddol, mwy na 10mya uwchben y cyfyngiad cyflymder, ac efallai bydd angen asesu dreifio'r gyrrwr. Bydd angen asesu troseddau mwy difrifol, e.e. "Gyrru heb Ofal a Sylw Digonol" cyn y caiff y gyrrwr ddreifio un o gerbydau CYNNAL eto.

6. DREIFIO, FFOAU SYMUDOL AC YMYRIADAU ERAILL

Rhaid i bob gweithiwr sy'n dreifio fod yn ymwybodol o bolisi CYNNAL ar ddefnyddio ffonau symudol wrth ddreifio.

Rhaid i weithwyr ddilyn y polisi hwn pryd bynnag maent yn dreifio cerbyd CYNNAL, ac fe'u cynghorir yn gryf i gadw at y gyfraith ar adegau eraill. Mae defnyddio ffôn symudol wrth ddreifio yn drosedd ardystiadwy, a gall effeithio ar hawl y gweithiwr i ddreifio.

Mae peidio â bod mewn rheolaeth lawn o gerbyd wrth ddreifio hefyd yn drosedd, a gall hyn gynnwys bwyta neu yfed, tiwnio radio, newid CD neu raglennu system llywio â lloeren. Gellir erlyn gyrrwyr am ddreifio'n ddiotal neu'n anystyriol, neu hyd yn oed am ddreifio'n beryglus os ydynt yn achosi damwain wrth wneud unrhyw un o'r pethau hyn.

Mae'r cosbau yn cynnwys dirwy ddi-ben-draw, datgymhwys o ddreifio a hyd at bum mlynedd yn y carchar yn yr achosion mwyaf difrifol.

Rhaid i bob Rheolwr a phob Rheolwr Llinell fod yn ymwybodol ei bod yn drosedd i gyflogwyr ofyn i'w gweithwyr ddefnyddio ffonau symudol wrth ddreifio.

7. ORIAU DREIFIO

Mae pob gweithiwr sy'n dreifio yn eu gwaith yn ddarostyngedig i'r rheolau ar faint o amser a dreuliant yn dreifio a gweithio, a rhaid iddynt orffwys digon mewn cyfnod o 24 awr.

Nid oes gofyn i yrwyr sy'n dreifio cerbydau o dan 3500Kg gadw cofnodion ysgrifenedig o'r oriau a dreuliant yn dreifio'u cerbydau.

Ystyrir bod y canllawiau canlynol yn arferion da:

- Dreifio dim mwy na 8 awr mewn unrhyw ddiwrnod gwaith
- Dreifio dim mwy na 2 awr ar y tro heb gael egwyl ac/neu 100 milltir, p'run bynnag a ddaw gyntaf, a chymryd o leiaf 15 munud o egwyl ar ôl hynny
- Gweithio dim mwy na 12 awr mewn diwrnod yn cynnwys egwyl pan fydd hyd at 8 awr o ddreifio
- Egwyl ddi-dor o 24 awr mewn unrhyw bythefnos.

Rhaid i yrwyr gadw at y canllawiau pob amser.

8. ADDASRWYDD Y CERBYD I'R Ffordd Fawr

Mae gan bob gyrrwr ddyletswydd gyfreithiol i ofalu bod y cerbyd yn addas i'r ffordd fawr.

Pob diwrnod, rhaid i'r gyrrwr wirio'r eitemau a restrir yn y Llyfr Diffygion cyn tanio'r cerbyd. Rhaid cadw'r Llyfr hwn ym mhob cerbyd, a rhaid i'r gyrrwr gofnodi unrhyw ddiffygion y sylwir arnynt.

Rhaid hefyd dweud am ddiffygion wrth Reolwr y Gweithdy.

Ni ddylid dreifio cerbyd os bydd y diffyg yn debygol o achosi damwain neu ddifrod i'r cerbyd.

D.S. Y gyrrwr sy'n bersonol gyfrifol am ddirwyon a phwyntiau cosb os bydd teiars neu oleuadau'r cerbyd yn ddiffygiol.

9. DREIFIO DAN DDYLANWAD ALCOHOL NEU GYFFURIAU

Cyfrifoldeb CYNNAL

Ni ddylid caniatáu i weithwyr ddreifio cerbydau CYNNAL (na'u cerbydau eu hunain ar fusnes CYNNAL) os amheuir eu bod dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

Cyfrifoldeb Gweithwyr

Ni ddylai gweithwyr geisio dreifio cerbyd CYNNAL dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau.

Rhaid delio gydag unrhyw weithiwr sydd dan ddylanwad diod neu gyffuriau anghyfreithlon gyda Threfn Ddisgyblu CYNNAL, ac ni ddylai'r gweithiwr ddreifio cerbyd CYNNAL nes bydd y mater wedi'i ddatrys.

Cyffuriau ar Bresgripsiwn

Os bydd gyrrwr yn cael unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn, rhaid iddo ofyn i'w feddyg a fyddai'r feddyginiaeth yn gallu'i wneud yn gysglyd neu effeithio ar ei allu i ganolbwyntio. Os felly, dylid osgoi dreifio tra bydd yn dal i gymryd y feddyginiaeth.

Rhaid iddynt ddweud wrth eu rheolwr llinell os oes gan gyffuriau ar bresgripsiwn unrhyw sgil effeithiau posibl.

Cyflyrau meddygol hysbysadwy

Mae'n rhaid i yrwyr roi gwybod i'r DVLA os cânt wybod bod ganddynt gyflyrau meddygol hysbysadwy arbennig megis Diabetes sy'n cael ei drin ag Inswlin. Ceir rhestr o'r cyflyrau hyn ar wefan y DVLA. <http://www.dvla.gov.uk/drivers.aspx>.

Rhaid i weithwyr ddweud wrth eu Rheolwr Llinell am unrhyw gyflyrau fel hyn.

10. YSMYGU YN Y GWAITH

Ni chaniateir ysmegu yng ngherbydau CYNNAL.

11. TORRI LAWR

Ym mhob cerbyd CYNNAL, mae cyflenwad o offer argyfwng y gellir ei ddefnyddio wrth dorri lawr (e.e. gwasgod felen lachar, tortsh, triongl rhybuddio torri lawr...)

Ceir hefyd gwybodaeth gyda'r rhifau i'w ffonio os bydd cerbyd yn torri lawr.

Yn ystod y diwrnod gwaith, dylai'r gyrrwr ffonio Maesincla yn gyntaf, i ddweud ble mae o/hi, ac wedyn rhoddir gwybod i Peugeot Assist.

Tu allan i oriau gwaith: Peugeot Assistance – 0800 294 0294

Sgrin wynt – 0800 999 5000 Rhif polisi. 35MF 11400976

12. CYNNAL A CHADW CERBYDAU

Mae rhaglen gynnal a chadw cerbydau CYNNAL yn seiliedig ar filltiroedd, yn unol ag argymhellion gwneuthurwyr y cerbydau. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw gofalu bod y cerbyd yn cael ei ddanfon i'r garej ar yr amser priodol, fel y dywedir gan wneuthurwyr y cerbyd.

Y gyrrwr sydd hefyd yn gyfrifol am gadw tu mewn a thu allan y cerbyd yn lân ac yn daclus.

Rhoddir logo CYNNAL ar ddwy ochr bob cerbyd. Bydd marciau adlewyrchol ac arwyddion rhybudd ychwanegol yn cael eu gosod i gydymffurfio â phob deddfwriaeth gyfoes. Mae larymau bacio yn safonol.

Ni chaniateir rhoi unrhyw hysbysebion masnachol ar unrhyw gerbyd, oni bai bod hyn wedi'i gymeradwyo mewn amgylchiadau eithriadol.

13. YSWIRIANT

Rhaid i CYNNAL gael Yswiriant Cynhwysfawr ar ei gerbydau fel bod unrhyw weithiwr awdurdodedig yn cael dreifio cerbyd CYNNAL y mae ganddo drwydded yrru briodol ar ei gyfer, ac i unrhyw un ar fusnes cyfreithlon gyda CYNNAL gael teithio mewn cerbyd.

Nid yw'r yswiriant yn caniatáu i weithwyr ddefnyddio'r cerbyd ar gyfer rhesymau preifat, neu i gludo eraill nad ydynt ar fusnes swyddogol CYNNAL.

Os bydd gyrrwr, yn erbyn rheolau'r polisi hwn, yn defnyddio'r cerbyd ar gyfer rhesymau preifat, neu'n cludo pobl nad ydynt ar fusnes swyddogol CYNNAL, bydd yn torri'r gyfraith ac ni fydd wedi'i yswirio gan Bolisi Yswiriant CYNNAL.

Bydd oblygiadau difrifol i unrhyw un sy'n dreifio cerbyd CYNNAL heb yswiriant.

14. PARCIO DROS NOS

Pan awdurdodir i weithwyr fynd â cherbydau CYNNAL adref, rhaid iddynt eu parcio oddi ar y ffordd os oes modd, ar eiddo'r gweithiwr. Os nad yw hynny'n bosibl, rhaid iddynt gael eu barcio oddi ar y ffordd, neu yn y fath fodd fel nad ydynt yn achosi rhwystr, ac yn ddelfrydol rhywle ble mae digon o olau. Ni ddylid gadael pethau gwerthfawr (e.e. cyfrifiaduron, gliniaduron, taflunwyr...) yn y cerbyd dros nos.

Ni chaniateir defnyddio cerbydau ar gyfer rhesymau preifat na phersonol heb ganiatâd rheolwr llinell y gyrrwr. Dylid gofyn am ganiatâd o flaen llaw. O dan Drefn Ddisgyblu CYNNAL, ystyrir bod defnydd anawdurdodedig yn Camymddwyn Difrifol.

Y gyrrwr sy'n gyfrifol am gadw'r cerbydau y cânt fynd adref efo nhw yn ddiogel.

15. TROSEDDAU PARCIO COSB SEFYDLOG

Rhaid parcio pob cerbyd yn briodol, gan gadw at gyfyngiadau cyfreithlon a rheolau meysydd parcio. Os bydd gyrrwr yn methu cadw at y rheolau hyn, y gyrrwr sy'n **personol** gyfrifol am dalu'r ddirwy cosb sefydlog.

Ni fydd CYNNAL yn talu unrhyw ddirwyon parcio ar ran gyrrwr unigol.

16. DIOGELWCH CERBYDAU

Mae llonyddwr (*immobiliser*) a system larwm ar bob cerbyd. Rhaid i yrwr ofalu eu bod yn cloi eu cerbydau yn y ffordd gywir i sicrhau nad yw'r systemau diogelwch hyn yn canu.

Dylid cadw'r cardiau ar gyfer talu am danwydd yn ddiogel bob amser. Bydd camddefnyddio'r cerdyn (e.e. er budd personol) yn cael ei ystyried yn Camymddwyn Difrifol dan Drefn Ddisgyblu'r Cwmni. Os collir y cerdyn, dylid dweud ar unwaith wrth Reolwr y Gweithdy a fydd yn trefnu i ganslo'r cerdyn.

Rhaid cloi cerbydau pob tro pan nad yw'r gyrrwr ar eu cyfyl.

17. DAMWEINIAU

Rhaid i bob gyrrwr fod yn ymwybodol o drefn CYNNAL ar gyfer delio gyda damweiniau a difrod trydydd parti.

Os bydd cerbyd CYNNAL mewn Damwain Traffig Ffordd, neu'n achosi difrod i eiddo trydydd parti, rhaid i'r gyrrwr stopio a chyfnwid manylion gyda pherchennog y cerbyd arall, a rhoi manylion CYNNAL i'r trydydd parti.

Rhaid cael manylion y trydydd parti, eu cwmni yswiriant a'u heiddo, a rhaid dweud wrth y Rheolwr Llinell am y ddamwain cyn gynted â phosibl.

Mae'r gyrrwr yn gyfrifol am gwblhau'r Ffurflen Hawliad Yswiriant gyda'i Reolwr Llinell.

Ni ddylai gyrrwr mewn damweiniau neu ddifrod i eiddo trydydd parti gyfaddef eu bod yn atebol.

18. TECHNEG DDREIFIO GYFFREDINOL

Rhaid i weithiwr sy'n dreifio cerbyd CYNNAL ufuddhau i Reolau'r Ffordd Fawr a'r holl reoliadau traffig eraill sy'n berthnasol i'r math o gerbyd dan sylw.

Rhaid i yrwyr ofalu eu bod yn dreifio mewn ffordd nad yw'n achosi perygl i'w hunain, i'w cyd-deithwyr, nac i ddefnyddwyr eraill ar y ffordd.

Pryd bynnag bosibl, cynghorir gywyrwr i ddefnyddio priffyrdd wrth deithio i ysgolion, o ysgolion, a rhwng ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o ddamweiniau dros y ddeng mlynedd diwethaf wedi digwydd ar ffyrdd bach, ble mae hawliadau yswiriant wedi bod ar sail 'cnoc am gnoc'.

Mae'n hawdd adnabod cerbydau CYNNAL a gallai gywyrwr eraill ar y ffordd ddweud wrth y cwmni bod cerbydau yn cael eu dreifio'n wael. Cyfeirir pob achos o'r fath i'r Rheolwr Llinell priodol er mwyn gweithredu.

19. TORRI'R CYFYNGIADAU CYFLYMDER STATUDOL

Gellir rhoi dirwy cosb sefydlog a lleiafswm o 3 pwynt ar drwydded yrru'r gweithiwr am dorri'r cyfyngiad cyflymder am y dosbarth o gerbyd a yrrir. Gellir rhoi cosb arall am dorri'r cyfyngiad cyflymder yn ddirifol, neu os gellir cysylltu damwain â chyflymder y cerbyd.

Rhaid i yrwyr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiad cyflymder cenedlaethol priodol ar gyfer y cerbyd sydd ganddynt.

Y gyrrwr sy'n bersonol gyfrifol am unrhyw gosb sefydlog ac ardystiadau ar drwydded yrru am droseddau gyrru.

20. ARWEINIAD CYFFREDINOL AR WEITHREDU'R POLISI HWN

- Ni ddylid caniatáu i weithwyr ddreifio cerbyd CYNNAL oni bai eu bod wedi cyflwyno eu trwydded yrru i'w gwirio.
- Rhaid i'r rheolwr llinell ofalu bod y drwydded yn caniatáu i'r gweithiwr ddreifio'r dosbarth o gerbyd y mae gofyn iddynt ddreifio.
- Rhaid i yrwyr cerbydau CYNNAL ofalu bod eu cerbyd yn addas i'r ffordd fawr cyn cychwyn, a gwneud cofnod o unrhyw ddiffygion y sylwir arnynt yn y Llyfr Diffygion.
- Rhaid i'r gyrrwr fod yn gyfarwydd â sut i reoli'r cerbyd a chael hyfforddiant cyn dreifio unrhyw gerbyd arbenigol.
- Rhaid i bob gyrrwr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiad cyflymder statudol ar gyfer y cerbyd dan sylw, ar wahanol ddosbarthiadau o ffyrdd, a rhaid iddynt wastad ddreifio o fewn y cyfyngiad cyflymder statudol i'r cerbyd, gan gadw at bob cyfyngiad perthnasol.
- Ni ddylai gywyrwr **byth** ddefnyddio ffôn symudol wrth ddreifio, a rhaid iddynt gadw at bolisi'r cwmni ar ddefnyddio ffonau symudol wrth ddreifio.
- Rhaid i yrwyr gofio y gall gweithredoedd eraill, megis bwyta neu yfed wrth ddreifio, amharu ar y dreifio ac arwain at erlyn.
- Rhaid i yrwyr gadw at gyfyngiadau parcio a pheidio ag achosi perygl neu anhwylystod i yrwyr eraill neu'r cyhoedd gyda'u dreifio neu'u hymddygiad.
- Rhaid i yrwyr wastad ddreifio o fewn eu gallu a'u profiad.
- Rhaid i yrwyr fod yn hynod ofalus wrth ddreifio ger ysgolion, neu ar dir ysgolion.
- Cynghorir gywyrwr, pryd bynnag bosibl, i ddefnyddio priffyrdd wrth deithio i ysgolion, o ysgolion a rhwng ysgolion.
- Rhaid i yrwyr fod yn ymwybodol o'r drefn ar gyfer delio gyda damweiniau a difrod, a rhaid iddynt ddarparu manylion a chael enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion.

- Rhaid iddynt ddweud wrth eu rheolwr llinell am y ddamwain cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i yrwyr sylweddoli eu bod yn hawdd i'w hadnabod wrth ddreifio cerbydau CYNNAL, ac y gall defnyddwyr eraill ar y ffordd ddweud wrth CYNNAL am unrhyw ddreifio annerbyniol.

21. PWYNTIAU GWEITHREDU

- Gwirio dogfennau gyrru gyrrwyr – ar y dechrau, a bob blwyddyn ar ôl hynny.
- Cael llyfrau Diffygion Cerbydau.
- Cael cit torri lawr.
- Sicrhau bod Manylion Torri Lawr ar gael ym mhob cerbyd.
- Cynnwys cyfeiriad at 'angen trwydded' mewn Contractau Cyflogaeth i yrwyr.
- Edrych ar gyflwr cerbydau pob 3/4 mis.
- Cadw golwg ar amserlen gwasanaethu/cynnal a chadw pob cerbyd.
- Gofalu bod sticeri rhybuddio/gwahardd ym mhob cerbyd (e.e. dim ysmegu, ffonau symudol...).

22. Datganiad y Gweithiwr

Cadarnhau trwydded

Wrth gwblhau'r ffurflen hon a darparu'r dogfennau angenrheidiol, rydych yn cytuno i CYNNAL wneud gwiriadau i ofalu bod gweithwyr yn cyflawni'u dyletswyddau yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen hon bob 12 mis.

Rhaid i chi ddweud wrth eich rheolwr llinell ar unwaith am unrhyw newidiadau i'ch trwydded yrru, a chwblhau ffurflen newydd.

ADRAN A – Trwydded yrru

Rwy'n cadarnhau fod gen i drwydded yrru lawn sy'n ddilys ar gyfer y cerbyd a ddefnyddiaf.

Ar hyn o bryd, mae gen i ardystiad/pwynt cosb ar fy nhrwydded.

Rwyf wedi atodi fy nhrwydded yrru.

ADRAN B – Addasrwydd i'r ffordd fawr

Rwy'n cadarnhau y byddaf yn edrych ar y cerbyd yn ddyddiol i sicrhau ei fod yn gyfreithlon ac yn addas i'r ffordd fawr, fel y gofynnir gan bolisiau CYNNAL. Nodir diffygion yn y Llyfr Diffygion.

Rwy'n cadarnhau y byddaf yn dreifio a defnyddio fy nherbyd yn unol â'r gyfraith a pholisiau CYNNAL pob amser.

ADRAN C - Datganiad

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cael copi o Bolisi Dreifio Cerbydau CYNNAL, ac wedi'i ddarllen.

Rwy'n tystio bod yr wybodaeth a roddaf yn gywir, ac rwy'n deall y gall methu â rhoi gwybodaeth gywir arwain at drefn ddisgyblu.

Eich enw llawn:

Eich llofnod: Dyddiad:

ADRAN Ch- (i'w chwblhau gan eich Rheolwr Llinell)

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi archwilio trwydded yrru'r gweithiwr a'i fod yn gymwys i ddreifio ar fusnes CYNNAL.

Llofnod y rheolwr llinell: Dyddiad:

Enw llawn: Teitl swydd: